

Ymaelodi ag Eglwys

Mae pobl yn aml yn gofyn a oes angen iddynt 'ymuno' neu 'ymaelodi' a'u heglwys. Nid yw hyn yn hanfodol ond, i'r rhai sy'n penderfynu cymryd y cam hwn, gall ddyfnhau'r ymdeimlad o berthyn. Mae'r EDU yn annog mynychwyr rheolaidd i ystyried aelodaeth eglwys pan fyddant yn dechrau meddwl am eglwys benodol fel 'Eu heglwys'. Mae aelodau'r eglwys yn ymrwymo i'w chefnogi trwy roi, trwy weithredu, a gan gymryd rhan yng Nghyfarfod yr Eglwys, yn ogystal â thrwy fynychu gwasanaethau cyhoeddus yn rheolaidd. Os hoffech wybod mwy am ddod yn aelod, siaradwch â'r gweinidog neu'r arweinydd addoli - byddant wrth eu bodd i ateb unrhyw gwestiynau.

Am adnoddau a llyfrau'r EDU (trwy gyfrwng y Saesneg):
www.urcshop.co.uk

Am fwy o wybodaeth (trwy gyfrwng y Saesneg) :
www.urc.org.uk

'Mae "Ddiwygiedig" yn golygu ein bod yn falch o gael archwilio'r Beibl, nid ydym yn ofni newid, ac rydym yn ceisio rhedeg ein heglwysi mewn ffyrdd sy'n cymryd mewnwelediad a chyfraniad pawb o ddifrif.'

Beth yw'r
Eglwys Ddiwygiedig Unedig?



Yr Eglwys
Ddiwygiedig
Unedig

© The United Reformed
Church 2019

ISBN: 0 85346 337 9

Cyflwyniad

Rydym yn falch iawn i'ch croesawu i'n heglwys. Mae'r daflen hon yn dweud ychydig mwy am y teulu ehangach yr ydym yn perthyn iddo - yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (EDU/URC).

Mae'r EDU yn grŵp o eglwysi Cristnogol ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru sydd hefyd yn rhan o deulu Eglwysi Diwygiedig y byd, sydd â chyfanswm aelodaeth o fwy na 70 miliwn. Mae gan yr EDU ei hun oddeutu 53,000 o aelodau mewn 1,426 o gynulleidfaoedd, gyda mwy na 600 o weinidogion gweithredol.

Cefndir Hanesyddol

Mae'r enw 'Diwygiedig Unedig' yn adlewyrchu ein gwreiddiau yn y Diwygiad. Dechreuodd hyn ym 1517 ar ôl i Martin Luther gyhoeddi ei '95 gosodiad' yn ymosod ar gamdriniaeth gan y pabyddion. Mae'r rhan 'Diwygiedig' o'n henw hefyd yn adlewyrchu ein nod parhaus o ddiwygio ein hunain i fod yn Eglwys i'r presennol.

Fe wnaeth Deddf Eglwys Ddiwygiedig Unedig 1972 uno'r Eglwys Bresbyteraidd Lloegr a'r Eglwys Gynulleidfaol yng Nghymru a Lloegr yn ffurfiol. Disgrifiodd un AS y cyfuniad hwn fel: 'un o'r mesurau mwyaf hanesyddol yn hanes yr eglwysi Cristnogol yn y wlad hon'. Ymhelaethodd yr enwad pan ymunodd Eglwysi Crist â ni ym 1981, ac yna Annibynwyr yr Alban yn 2000.

Mae'r EDU yn Eglwys anghydfurfiol. Yn syml, mae hyn yn golygu nad ydym yn Eglwys 'sefydledig', gyda chysylltiad ffurfiol â'r awdurdod sifil fel sydd

gan yr Eglwys Loegr ac Eglwys yr Alban. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio'n agos ag Eglwysi o bob traddodiad, mewn gweddi a gweithredoedd cymdeithasol, ac mae llawer o'n heglwysi lleol bellach yn unedig ag eglwysi lleol o draddodiadau eraill.

Ein Credoau

Credwn y gallwn ni glywed Gair Duw yn y Beibl, sy'n dal i siarad â ni heddiw, ac y gall pob un ohonom ddod o hyd i foddhad trwy weini a charu Iesu Grist.

Mae diffyg hierarchaeth a pharch tuag at gydwybod unigol yn golygu fod yr EDU yn hyblyg ac yn ymgorffori amrywiaeth eang o farnau. Ar yr un pryd, yng ngeiriau ein 'Datganiad o Natur, Ffydd a Threfn', fel un, rydym wedi ymrwymo i 'Dduw: Tad, Mab ac Ysbryd Glân - y Duw byw, yr unig Dduw erioed i'w ganmol.'

Rydym yn falch o fod yn Eglwys ddiwylliannol, lle mae pobl sydd â gwreiddiau ethnig a diwylliannol amrywiol yn cyfoethogi bywydau Cristnogol ei gilydd. Mae holl swyddi yn yr EDU, boed y rheini'n wirfoddol neu'n gyflogedig, yn agored i ddynion a merched. Yr oeddem yn arloeswyr wrth ordeinio merched - ordeiniwyd ein gweinidog benywaidd gyntaf ym 1917.

Gellir canfod ragor o wybodaeth am ein credoau craidd yma (trwy gyfrwng y Saesneg) www.bit.ly/urcbelief.

'Diffyg hierarchaeth a pharch ar gyfer cydwybod unigol'

Ein Strwythur Sefydliadol

Mae gan y EDU strwythur democrataidd tair ha

Cynulleidfaoedd eglwysig lleol - maent yn cynn... cyfarfodydd i lywodraethu eu materion. Mae gan bob eglwys arweinyddiaeth leol gan henaduriaid etholedig, ond y prif gorff sy'n cael gwneud penderfyniadau ar lefel lleol yw Cyfarfodydd yr Eglwys.

Synodau - mae yna 13 synod: synod cenedlaethol yr Alban a Chymru ynghyd â 11 synod rhanbarthol ar draws Lloegr. Mae pob un yn darparu goruchwyliaeth o faterion rhanbarthol ac maent o dan arweiniant gymedrolwr synod.

Y Cynulliad Cyffredinol - Dyma gorff llywodraethu terfynol yr EDU. Maent yn cyfarfod bob dwy flynedd i ddathlu, trafod a gwneud penderfyniadau ar fywyd a gwaith yr enwad. Cyngor Cenhadaeth yw corff gweithredol y Cynulliad Cyffredinol ac maent yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Ymwneud ag eglwys. Mae eglwysi lleol yn cynnig ystod amrywiol o weithgareddau cymunedol yn ogystal ag addoliad ar y Sul, sydd yn ganolbwynt i fywyd yr eglwys. Am fanylion am weithgareddau yn ein heglwys, gofynnwch i aelod o'r gynulleidfa neu gwiriwch ein gwefan.

